**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## CYNRYCHIOLAETH AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Y penderfyniad a geisir

**1.** Gwahodd yr Awdurdod i gadarnhau penderfyniad y Paenl Gweithredol i benodi'r Cynghorydd Cliff Shone i wasanaethau ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Sharon Frobisher.

## Cefndir

**2.** Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud newidiadau i'w gynrychiolaeth ar yr Awdurdod oherwydd absenoldeb estynedig y Cynghorydd David Jones MBE. O ganlyniad i'r newidiadadu hyn mae'r Cynghorydd Frobisher wedi ei phenodi i'r Panel Gweithredol am y cyfnod hyd at Fai 31, 2007.

**3.** Er nad oes gwaharddiad cyfreithiol ar y Cynghorydd Frobisher i barhau i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, arferiad yr Awdurdod yw nad yw aelodau'r Panel Gweithredol yn gwasanaethu hefyd ar y Pwyllgor Safonau.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Oherwydd fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau eisoes wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2, cyn i'r Awdurdod llawn gynnal ei gyfarfod nesaf ar Hydref 23, rhoddwyd y dasg o ystyried pa un ai i benodi cynrychiolydd newydd ar y Pwyllgor Safonau i'r Panel Gweithredol o dan bara 2.3(xi) o'i gylch gwaith sef: "ymdrin ag unrhyw…fater cyfansoddiadol" fel y barno'r Clerc yn ddoeth yn dilyn ymgynghori o flaen llaw â'r Cadeirydd.

**5.** Cafodd pob aelod wybod am y sefyllfa, a gofynnwyd i unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn cael ei ystyried i'w benodi roi gwybod hynny imi erbyn Medi 13. Daeth dau enw i law sef:
Y Cynghorydd Margaret Griffith (Gwynedd)
Y Cynghorydd Cliff Shone (Sir y Fflint)

**6.** Yn ei gyfarfod ar 21 Medi rhoddwyd gwybod i'r Panel Gweithredol am yr enwebiadau a chynghorwyd yr aelodau y gellid penodi y naill neu'r llall. Fodd bynnag, gan fod yr aelod arall o'r Awdurdod oedd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, sef y Cynghorydd Gwilym O Williams, hefyd yn dod o Wynedd, awgrymwyd rheswm hwnnw, y dylid penodi'r Cynghorydd Cliff Shone ar y Pwyllgor Safonau.

**7.** Penderfynodd y Panel Gweithredol y dylai'r Cynghorydd Shone gael ei benodi yn lle'r Cynghorydd Frobisher, fel un o gynrychiolwyr yr Awdurdod ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau awdurdod lleol nesaf yn 2008, ac y dylai'r Awdurdod gadarnhau ei benderfyniad.

**8.** Mynychodd y Cynghorydd Shone ei gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau ar Hydref 2 2006.

## Argymhelliad

**9.** Bod yr Awdurdod yn cadarnhau penderfyniad y Panel Gweithredol i benodi'r Cynghorydd Cliff Shone i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau cyffredin nesaf yn 2008.